Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.7 Ffynonellau ariannu ar gyfer prosiectau iechyd a gofal cymdeithasol

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid i fudiadau sy'n rhedeg prosiectau gofal iechyd a chymdeithasol a hybu iechyd.

Yn ogystal ag ystod eang o ymddiriedolaethau a sefydliadau annibynnol sy'n cefnogi prosiectau yn y meysydd gwaith hyn yn benodol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido prosiectau iechyd a gofal cymdeithasol yn uniongyrchol o dan Adran 64 Deddf y Gwasanaeth Iechyd 1968 ac Adran 28(b) Deddf y Gwasanaeth Iechyd 1977.

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

Sefydliad Allen Lane

Mae'r Sefydliad hwn yn rhoi grantiau i fudiadau gwirfoddol di-elw yn y DU. Ar y cyfan, mae'r Sefydliad yn ceisio cyllido gwaith sy'n mynd i wneud gwahaniaeth parhaol i fywydau pobl yn hytrach na lliniaru symptomau neu broblemau ar y pryd yn unig, yn ogystal â phrosiectau sy'n ceisio lleihau bod yn ynysig, stigma a gwahaniaethu ac sy'n annog neu'n galluogi grwpiau amhoblogaidd i rannu ym mywyd y gymuned gyfan. Gellir defnyddio'r grantiau ar gyfer costau cychwyn, craidd neu brosiect, ac fel arfer mae rhwng £500 a £15,000 ar gael. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i waith mudiadau sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, yn amhoblogaidd, fel: ffoaduriaid a cheiswyr lloches; cymunedau du ac ethnig lleiafrifol; grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol; **rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl,** trais neu gam-drin; troseddwyr a chyn-droseddwyr, trafeilwyr a phobl hŷn.

Cyswllt:
Sefydliad Allen Lane, 90 The Mount, Efrog, YO24 1AR
Ffôn: 01904 613 223
enquiries@allenlane.org.uk
www.allenlane.org.uk

Cronfa Elusennol Baily Thomas

Sefydlwyd yr elusen gofrestredig hon yn bennaf i helpu ymchwil i **anableddau dysgu a gofal a chymorth i rai sy'n cael eu heffeithio gan anableddau dysgu.** Rhoddir dros £1 miliwn mewn grantiau o £250 neu fwy. Dim ond ceisiadau gan fudiadau gwirfoddol sy'n elusennau cofrestredig, sy'n gysylltiedig ag elusen gofrestredig neu gan ysgolion neu Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon fydd yn cael eu hystyried. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 1 Mai neu 1 Hydref.

Cyswllt:
d/o TMF Management UK Limited, 410 Capability Green, Luton LU1 3AE
Ffôn: 01582 439225
info@bailythomas.org.uk

Sefydliad Elusennol Bernard Sunley

Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i amrywiaeth o gategorïau gan gynnwys: addysg; ieuenctid; cymunedol; amgylcheddol/cadwraeth; **iechyd a lles.** Fel arfer, mae'r grantiau'n amrywio rhwng £200 a £5,000. Rhoddir grantiau ond i elusennau cofrestredig, gan gynnwys ysgolion, yn y DU. Nid oes ffurflen gais – dylid cyflwyno pob cais ar ffurf llythyr eglurhaol at y Cyfarwyddwr.

Cyswllt:
Sefydliad Elusennol Bernard Sunley, 20 Berkley Square, Llundain W1J 6LH
Ffôn: 020 7408 2198
Ffacs: 020 7499 5859
asstdirbsunleycharfund@ukgateway.net

Sefydliad LankellyChase

Mae'r Sefydliad yn cefnogi gwaith elusennau cofrestredig ledled Prydain, ac eithrio yn ardal Llundain Fwyaf. Ei flaenoriaethau yw'r celfyddydau, treftadaeth, torri'r cylch dieflig o gam-drin ac amddifadedd, datblygu cymunedau, **meddyliau rhydd a thawel,** troseddwyr a chymdeithas, ac, am gyfnod byr yn unig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'n cefnogi prosiectau cymunedol sy'n cwrdd ag anghenion lleol, yn enwedig elusennau llai, gyda chylch gwaith lleol neu ranbarthol yn unig. Mae'n cydnabod bod gan grwpiau du ac ethnig lleiafrifol anghenion arbennig ac, felly, mae'n croesawu ceisiadau gan fudiadau o'r fath. Grantiau rhwng £1,000 a £40,000.

Cyswllt:
2 The Court, High Street, Harwell, Didcot, Sir Rhydychen OX11 0EY
Ffôn: 01235 820 044
www.lankellychase.org.uk

Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr

Sefydliad Lloyds TSB yw un o'r cyrff annibynnol mwyaf sy'n ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n ceisio cyrraedd mudiadau ar lawr gwlad ledled Cymru. Dosbarthwyd tua £2 miliwn i elusennau ledled Cymru yn 2007, a swm cyfartalog y grantiau oedd £14,500. Rhoddir grantiau i elusennau lleol a rhanbarthol gyda incwm o dan £1miliwn. Cenhadaeth y Sefydliad yw cynorthwyo a gweithio mewn partneriaeth â elusennau cydnabyddedig sy'n helpu pobl sydd dan anfantais i chwarae rhan lawnach yn y gymuned.

Cyswllt:

Canolbarth a De Cymru – Blaenau Gwent, Pen y Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tydful, Sir Fynwy, Castell nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg.

Mike Lewis
Rheolwr Grantiau y Canolbarth a De Cymru,
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, Llundain, SE1 1UN
Ffôn: 07802 540793
Ffacs: 0870 4111224
mid&southwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Gogledd Cymru - Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam.

Cerys Thomas
Rhelowr Grantiau, Gogledd Cymru
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, London, SE1 1UN
Ffôn: 0750 0787749
Ffacs: 0870 4111224
northwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Y Sefydliad Rank

Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio'n llwyr ar annog a datblygu arweinyddiaeth ymhlith pobl ifanc, cefnogi pobl ifanc ddifreintiedig a rhai sy'n unig neu'n fusgrell oherwydd **henoed neu anabledd** ac yn hybu egwyddorion Cristnogol drwy ffilm a chyfryngau eraill. Fodd bynnag, mae gan y Sefydliad raglen grantiau bach ar gyfer apeliadau digymell. Dylid anfon apeliadau cyffredinol, gan gynnwys rhai digymell ar gyfer prosiectau addysg pobl ifanc a gofal cymunedol i'r swyddfa yn Leamington Spa. Mae gwybodaeth am brosiectau ieuenctid a gychwynnwyd yn benodol gan y Sefydliad ar gael o swyddfa Hebden Bridge (yng Nghymru a Lloegr).

Cyswllt:
Y Gweinyddwr Grantiau, PO Box 2862, Whitnash, Leamington Spa CV31 2YH
Ffôn: 01926 744550
sheila.gent@rankfoundation.com

Y Gweinyddwr Grantiau, 28 Bridgegate, Hebden Bridge, Gorllewin Sir Efrog HX7 8EX
Ffôn: 01422 845172
charles.harris@rankfoundation.com

Ymddiriedolaeth Elusennol Syr Jules Thorn

Yn unol â'i chylch gwaith sylfaenol, mae'r elusen ymchwil feddygol hon yn rhoi grantiau i brifysgolion ac ysbytai ledled y DU. Fodd bynnag, mae ei Rhaglen Rhoddion Llai yn derbyn apeliadau gan elusennau cofrestredig sy'n helpu pobl **sâl neu anabl** a grwpiau difreintiedig eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau rhwng £100 a £750.

Cyswllt:
Ymddiriedolaeth Elusennol Syr Jules Thorn, 24 Manchester Square, Llundain, W1U 3TH
Ffôn: 020 7487 5831
Ffacs: 020 7224 3976
info@julesthrontrust.org.uk
www.julesthorntrust.org.uk

Sefydliad Garfield Weston

Mae'r rowndiau cyllid diweddar wedi helpu prosiectau yn y categorïau canlynol: y celfyddydau, cymunedol, addysg, **lles**, meddygol, cymdeithasol, crefydd, ieuenctid a'r amgylchedd. Yn 2005, cefnogodd y Sefydliad 1,862 o fudiadau gyda chyfanswm grantiau o dros £38.7 miliwn. Rhaid i ymgeiswyr fod â statws elusennol neu fod yn gallu derbyn tâl drwy elusen leol. Ni fydd ceisiadau gan unigolion yn cael eu hystyried. Nid oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Cyswllt:
Sefydliad Garfield Weston, Weston Centre, 10 Grosvenor Street, Llundain, W1K 4QY
Ffôn: 020 7399 6565
Ffacs: 020 7399 6580
www.garfieldweston.org

Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn rhoi grantiau i elusennau bach ledled y DU ar gyfer amrywiaeth o waith. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn nifer fach iawn o geisiadau o Gymru a byddent yn hoffi cyrraedd mwy o elusennau bach yno. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyllido categorïau gwaith megis: pobl oedrannus; plant a phobl ifanc; pobl gydag **anableddau neu broblemau iechyd meddwl;** pobl sy'n ceisio goresgyn problemau fel **caethiwed, cam-drin**, problemau perthynas, hanes o droseddu; a dysgu gydol oes. Rhaid i ymgeiswyr fod â statws elusennol, cyfansoddiad ac wedi gweithredu ers tair blynedd o leiaf, ynghyd â throsiant arferol o lai na £60,000 y flwyddyn. Ni roddir grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf. Rhoddir blaenoriaeth ar hyn o bryd i ymgeiswyr o elusennau bach iawn.

Cyswllt:
Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp, 47A Paris Road, Scholes, Holmfirth, HD9 1SY
Ffôn: 01484 683 403
info@yappcharitabletrust.org.uk
www.yappcharitabletrust.org.uk

Sefydliad Laura Ashley

Nod y sefydliad yw cyllido prosiectau yng nghefn gwlad Canolbarth Cymru i wella bywydau teuluoedd.

Blaenoriaethau – canolfannau celfyddydau amlbwrpas i deuluoedd lleol; digwyddiadau arbennig i **ofalwyr ifanc**; addysg a chwarae i deuluoedd gyda'i gilydd; adfywio amaethyddiaeth drwy farchnadoedd ffermwyr neu fentrau eraill.

Cyswllt:
Y Cyfarwyddwr, 3 Cromwell Place, Llundain SW7 2JE
Ffôn: 020 7581 4662
info@laf.uk.net
www.laf.uk.net

Apêl Plant mewn Angen y BBC (Cymru)

Nod Apêl Plant mewn Angen y BBC, drwy ei weithgareddau grant, yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant difreintiedig yn y DU.

Blaenoriaethau – mae'r Apêl yn helpu plant o dan 18 oed neu'n iau yn y DU os yw eu hanfanteision yn cynnwys:

- Anableddau meddyliol, corfforol neu synhwyraidd;
- Problemau ymddygiad neu seicolegol;
- Byw mewn tlodi neu sefyllfa o amddifadedd;
- Salwch, trallod, cam-drin neu esgeulustod.

Cyswllt:
Y Cydlynydd Cenedlaethol,
Y Ganolfan Ddarlledu,
Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ

Ffôn: 029 2032 2383
Ffacs: 029 2032 2337
marc.phillips@bbc.co.uk
www.bbc.co.uk/cin

Comic Relief

Sefydlwyd Comic Relief ym 1984 i helpu pobl ddifreintiedig yn y DU ac yn Affrica. Codir arian drwy weithgareddau fel Dydd y Trwynau Coch. Rhoddir grantiau yn y DU i helpu cyrff gwirfoddol i fynd i'r afael â thlodi ac i hybu cyfiawnder

cymdeithasol. Nod Comic Relief yw cyrraedd y bobl dlotaf a mwyaf difreintiedig, eu helpu i ddod o hyd i atebion i'w problemau, rhoi llais i bobl sy'n wynebu gwahaniaethu, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, a chefnogi gwaith sy'n dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Rhaglenni a blaenoriaethau

Pobl ifanc a iechyd meddwl, pobl ifanc ac alcohol; pobl ifanc a gam-driniwyd drwy buteindra; pobl hŷn; **iechyd meddwl**; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; trais yn y cartref a chymunedau difreintiedig.

Cyswllt:
Tîm Grantiau'r DU,
89 Albert Embankment,
Llundain SE1 7TP

Ffôn: 020 7820 5555
Ffacs: 020 7820 5500
Minicom 020 7820 5579
ukgrants@comicrelief.org.uk
www.comicrelief.com
Ffôn: 029 2052 0250
Ffacs: 029 2052 1250
mail@cfiw.org.uk

Dyfarniadau Cymunedol Corus

Mae'r Dyfarniadau yn disodli Ymddiriedolaeth Julian Melchett, ac wedi eu dyfeisio i annog ystod eang o achosion elusennol yn y cymunedau lle mae gan y cwmni weithgareddau gweithgynhyrchu a dosbarthu. Rhoddir dyfarniadau ar gyfer:

- Ddarparu cyfleusterau hamdden a galwedigaethau hamdden eraill
- Mynd i'r afael â phroblemau'r henoed, tlawd, **claf, anabl ac eraill sydd mewn angen arbennig**.
- Hybu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau.
- Gwarchod a gwella nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu gyhoeddus, neu harddwch naturiol.
- Ehangu cyfleoedd addysgol

Cyswllt:
Swyddog Gwybodaeth, Swyddfeydd Adfywio, Corus Strip Products,
Bloc G, Gwaith Llanwern,
Casnewydd NP19 4QZ

Ffôn: 01633 464 564
Ffacs: 01633 464 851

Sefydliad Hedley

Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig yn y DU. Prif nod y Sefydliad yw cefnogi prosiectau sy'n ymwneud ag addysgu, hyfforddi a **iechyd** a lles pobl ifanc yn y DU. Mae hefyd yn cyllido prosiectau sy'n rhoi cymorth i **ofalwyr pobl anabl a phobl sy'n derfynol sâl**, ac yn rhoi cyllid i brynu cyfarpar meddygol arbenigol.

Y grant cyfartalog yw £3,000. Gellir ond defnyddio'r grantiau i dalu am gostau prosiect ac nid ar gyfer costau craidd, refeniw, cyflog neu drafnidiaeth.

Cyswllt:
Ysgrifennydd Apeliadau, Sefydliad Hedley, 9 Dowgate Hill, Llundain, EC4R 2SU

www.hedleyfoundation.org.uk.

Grantiau gan Lywodraeth y Cynulliad i fudiadau gwirfoddol Cymru gyfan sy'n gweithredu yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol

Yn draddodiadol, mae'r prosiectau hyn yn cael eu cyllido o dan raglen cronfa grantiau tair blynedd. Mae'r rhaglen bresennol yn rhedeg tan 31 Mawrth 2008.

Pwrpas y grantiau hyn yw cefnogi gweithgareddau craidd unrhyw fudiad gwirfoddol sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol dros:

- Bobl hŷn (a.64).
- Gofalwyr (a.64).
- Oedolion gydag anableddau corfforol a / neu synhwyraidd (a.64).
- Oedolion gydag Anableddau Dysgu (S28b).
- Oedolion gyda phroblemau Iechyd Meddwl (a.28b).

Mae cynlluniau grantiau ar wahân ar gael i bob un o'r grwpiau uchod.

Amcan cyffredinol
Amcan cyffredinol y cynlluniau grantiau hyn yw helpu mudiadau gwirfoddol cymwys i helpu Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni ei hagenda strategol dros bobl yn y categorïau uchod fel a ddisgrifir yn *Cymru: Gwlad Well* a strategaethau penodol eraill gan y Cynulliad fel rhai ar gyfer pobl hŷn, gofalwyr a phobl gydag anableddau dysgu.

I fod yn gymwys i gael eich ystyried ar gyfer y grantiau hyn, rhaid i fudiadau fodloni'r meini prawf canlynol:

Rhaid iddynt fod yn fudiad gwirfoddol.

Rhaid iddynt gwrdd â'r meini prawf cyffredinol a nodir yn adran 7.2.1 y llawlyfr Canllawiau ar Grantiau i'r Sector Gwirfoddol yn y Compact rhwng y Cynulliad a'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Rhaid iddynt fod yn fudiadau gwirfoddol sy'n gweithredu yn y sectorau iechyd a / neu ofal cymdeithasol dros y categorïau o bobl a ddisgrifir uchod.

Rhaid iddynt fod yn fudiadau Cymru gyfan. Ar gyfer y maen prawf hwn, y prif ystyriaethau yw i ba raddau y mae mudiad:

- Yn datblygu rhwydweithiau lleol (o ganghennau a phobl) ledled Cymru.
- Wedi ei gynrychioli ar draws Cymru.
- Yn cyflwyno barn y mudiadau lleol i Lywodraeth y Cynulliad a chyrff canolog eraill.
- Yn ffynhonnell o wybodaeth, arbenigedd a hyfforddiant i fudiadau lleol ym mhob ardal yng Nghymru.
- Yn cyfrannu at ddatblygu polisïau cenedlaethol.

Mae cynlluniau grantiau ar wahân gan y Cynulliad ar gyfer pobl un o'r categorïau. Dylai mudiadau sydd angen gwybodaeth bellach arnynt ac sy'n meddwl cyflwyno cais o dan y rownd nesaf i brosiectau sy'n dechrau o fis Ebrill 2008 ymlaen, gysylltu yn y lle cyntaf â'r canlynol:

- Pobl Hŷn
  Graham Carter 029 2082 3423;

- Gofalwyr
  Gavin Parry 029 2082 6980;

- Anableddau Corfforol / Synhwyraidd

Steve Gulliford 029 2082 5913;

- Anableddau Dysgu
  Alyson Collins 029 2082 5441;

- Iechyd Meddwl
  Tina Jones 029 2082 5734

Cynlluniau grantiau hybu iechyd gan Lywodraeth y Cynulliad

Mae'r cynllun hwn yn bodoli i gryfhau gwaith hybu iechyd yng Nghymru. Cynigir grantiau i fudiadau gwirfoddol cenedlaethol sy'n gallu cyfrannu at hybu iechyd a chyd-fynd â datblygiadau hybu iechyd cenedlaethol yng Nghymru.

Roedd y rownd gyllido ddiwethaf wedi gwahodd ceisiadau a oedd yn ymateb i Her Iechyd Cymru:

- Helpu i ddylanwadu ar yr amodau sydd eu hangen ar bobl i fyw bywydau iach ac i wella eu hiechyd.
- Helpu unigolion a grwpiau i wneud beth fedrant i wella eu hiechyd nhw a'u teuluoedd.
- Helpu i gyfleu'r neges 'iechyd gwell' yn fwy effeithiol.
- Gwella gallu cyrff gwirfoddol a chymunedol cenedlaethol i ymgysylltu â Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid allweddol er mwyn datblygu polisïau ac arferion hybu iechyd. Gall hyn olygu gweithio naill ai'n unigol neu'n gyfunol gyda, er enghraifft, Canolfan Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol a phartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles lleol er mwyn cyflawni canlyniadau iechyd gwell i bobl Cymru.

Prif themâu y rhaglen Her Iechyd Cymru yw:

- Ysmygu.
- Gordewdra.
- Damweiniau ac anafiadau.
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill.
- Heintiau (a drosglwyddir yn rhywiol; a gafwyd drwy ofal iechyd; y gellir eu hatal drwy frechiad).
- Iechyd meddwl a lles.

Mae manylion am fudiadau sydd wedi elwa o grantiau a manylion pellach am rowndiau cyllido a'r dyddiadau cau ar gael ar wefan y Prif Swyddog Meddygol (www.cmo.wales.gov.uk).

Neu, am ragor o wybodaeth, gallwch gysylltu â:

Lisa Bishop, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cangen Datblygu Sectorau, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3 NQ.
Ffôn: 029 2080 1412
health-challenge@wales.gsi.gov.uk

Cynllun grantiau bach ar gyfer prosiectau iechyd meddwl lleol

Mae Gweinidog y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi cytuno ar yr argymhellion fel a ganlyn:

- Cytunwyd fod elfen Cynllun Grant y Bwrdd Iechyd Meddwl (LMHGS) cyfredol ar gyfer gwasanaethau datblygu iechyd meddwl yn ddadelfenedig a'i reoli ar wahân o Ebrill 2008.
- Cytunwyd fod elfennau LMHGS a chynllun grant SPD sy'n weddill yn cyfuno i ffurfio cynllun grant iechyd meddwl newydd ar gyfer gwasanaethau lleol o Ebrill 2009.

- Cytunwyd i barhau trefniadau'r grant cyfredol ar gyfer y ddau grant yma am flwyddyn ychwanegol (2008/09).
- Cytunwyd y byddai'r cynllun grant iechyd meddwl newydd ar gyfer gwasanaethau lleol.
- Bydd yn cael ei ddosbarthu ar gylch ariannu 3 blynedd, h.y. 2009/10, 2010.11, 2011/12.
- Rhaid sicrhau cytundeb rhwng yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a defnyddwyr y gwasanaethau lleol ar ba wasanaethau iechyd meddwl lleol neu ranbarthol i'w hariannu.
- Rhaid dangos yn glir sut y mae ariannu gwasanaethau iechyd meddwl lleol yn cefnogi trosglwyddiad blaenoriaethau strategaethol iechyd meddwl gan Lywodraeth y Cynulliad.
- Rhaid dangos yn glir sut y cefnogir gwellhad pobl sydd ag iechyd meddwl.

Cyswllt:
Desg Gymorth WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Diben y manylion yn y daflen hon yw rhoi arweiniad cyffredinol, bydd y cysylltiadau a roddir yn gallu rhoi gwybodaeth fwy manwl ichi. Bydd eich cyngor gwirfoddol sirol lleol hefyd yn gallu eich helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllid eraill, na restrir uchod, i ateb eich anghenion.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:24/11/2008

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk